SESIWN 2

# FFURFIO AMCAN A CHAM GWEITHREDU

**Amser**

Awr.

**Ynglŷn â'r sesiwn hon**

Gan weithio yn eu grwpiau Prosiect Cymryd Camau Gweithredu, bydd y disgyblion yn penderfynu ar amcan a gweithred ymgyrchu benodol. Maent hefyd yn myfyrio ar y ffordd orau iddynt weithio fel grŵp.

**Amcanion dysgu**

Bydd y disgyblion yn gallu:

- gwybod a deall beth sy'n achosi gwaith grŵp llwyddiannus;
- gwneud penderfyniadau rhesymegol fel grŵp, gan benderfynu ar amcan a cham gweithredu ar gyfer eu Prosiect Cymryd Camau Gweithredu

**Cwestiynau allweddol**

Beth yw'r ffordd orau i ni weithio fel grŵp?
Beth ddylai ein hamcan fod?
Pa gam a ddylem ei gymryd i gyflawni ein hamcan?

**Yr adnoddau sydd eu hangen**

Cyfrifiadur/gliniadur gyda thaflunydd ar gyfer sioe sleidiau PowerPoint
PowerPoint: Prosiect Cymryd Camau Gweithredol – Sesiwn 2
Taflen adnoddau 1 *Lluniau Gweld-Rhedeg-Gwneud* (un copi i'r athro)
Taflen adnoddau 2 *Syniadau ar gyfer cymryd camau gweithredu* (un ar gyfer pob grŵp)
Taflen waith 1 – *Beth, pam, pwy, sut?* (un ar gyfer pob grŵp)
Taflen waith 2 – *Tabl pwyso a mesur* (un ar gyfer pob grŵp)
Taflen waith 3 – *Ar drywydd y targed* (un ar gyfer pob grŵp)
Papur nodiadau gludiog

SESIWN 2
# FFURFIO AMCAN A CHAM GWEITHREDU

**Cynllun y sesiwn**


| Amser | Cyflwyniad | Adnoddau |
|---|---|---|
| 0-15 munud | Esboniwch y bydd y myfyrwyr yn dechrau gydag ymarfer o'r enw 'Gweld-rhedeg-gwneud' a gynlluniwyd i ddefnyddio rhai sgiliau allweddol. Dylai'r disgyblion weithio yn eu grwpiau prosiect. Ym mhob grŵp mae angen un sy'n 'gweld', un sy'n 'rhedeg' ac mae gweddill y grŵp yn 'gwneud'.<br><br>Er mwyn trefnu'r gweithgaredd, gofynnwch i'r rhai sy'n rhedeg sefyll yng nghefn y dosbarth, y rhai sy'n gwneud i barhau i eistedd a'r rhai sy'n gweld i ddod i flaen y dosbarth. Byddant yn gweld y llun am ychydig o amser yn unig, a byddant wedyn angen dweud wrth yr un sy'n rhedeg yr hyn y maent wedi'i weld. Mae'r rhai sy'n rhedeg wedyn yn mynd at y rhai sy'n gwneud, yn disgrifio'r llun ac mae'r rhai sy'n gwneud yn tynnu llun o'r hyn a ddisgrifiwyd. Tra bod hyn yn digwydd, gallwch ddangos yr ail lun i'r rhai sy'n gweld. Ewch drwy'r gweithgaredd hwn ar gyfer y tri llun, gan ganiatáu i'r disgyblion gyfnewid rolau fel sy'n briodol.<br><br>Ar ôl y gweithgaredd dangoswch y lluniau gwreiddiol i'r dosbarth gan ddefnyddio'r sleidiau PowerPoint a gofynnwch i'r disgyblion gymharu'r rhain gyda'u lluniau hwy. Esboniwch fod pob delwedd yn cynrychioli sgil allweddol gwahanol – cydweithredu/gwaith tîm, cyfathrebu a meddwl yn feirniadol. Pwysleisiwch pa mor bwysig fydd y sgiliau hyn iddynt yn ystod eu prosiect. | Sesiwn 2<br>Sleidiau PowerPoint 1-7<br><br>*Lluniau Gweld-Rhedeg-Gwneud*<br>(taflen adnoddau 1) |
| | | |
| **Gweithgareddau** | | |
| 15-35 munud | **Beth, pam, pwy, sut?**<br>Yn eu grwpiau, bydd y disgyblion yn awr yn myfyrio'n feirniadol ar eu mater trafod a phenderfynu ar gamau gweithredu posibl ar gyfer eu prosiect arfaethedig. Gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau ar *Beth, pam, pwy, sut?* (taflen waith 1). I'w helpu, rhowch *Syniadau ar gyfer cymryd camau gweithredu* (taflen adnoddau 2) i bob grŵp, ac ewch trwy'r enghraifft ar sleid 8. Dylech ymweld â phob grŵp i roi canllawiau fel y bo angen. | *Beth, pam, pwy, sut?*<br>(taflen waith 1);<br>*Syniadau ar gyfer cymryd camau gweithredu*<br>(taflen adnoddau 2)<br>Sleid Powerpoint 8 |
| 35-55 munud | **Pwyso a mesur**<br>Esboniwch eu bod yn awr yn mynd i benderfynu ar gam gweithredu penodol ar gyfer eu prosiect. Dylai fod gan y disgyblion dri syniad ar gyfer camau gweithredu posibl ar waelod *Beth, pam, pwy, sut?* (taflen waith 1). Gofynnwch iddynt ysgrifennu pob un o'r camau gweithredu ar nodiadau gludiog ar wahân ac wedyn trafod ble i'w rhoi ar y *Tabl pwyso a mesur* (taflen waith 2), gan ystyried pa mor rhwydd a pha mor effeithiol yw pob cam gweithredu yn eu barn hwy. Allan o hyn, dylai pob grŵp ddewis cam gweithredu effeithiol a ellir ei gyflawni, yn seiliedig ar yr amser sydd ganddynt. Efallai bydd yn briodol i grwpiau wneud mwy nag un cam gweithredu, ee i godi ymwybyddiaeth er mwyn newid barn y cyhoedd ac i lobïo dros newid drwy ysgrifennu at y cyngor lleol.<br><br>Ar ôl dewis cam gweithredu yn eu grwpiau, dylai pob grŵp lenwi *Ar drywydd y targed* (taflen waith 3). Yn yr achos hwn, mae targed yn cyfeirio at y nod cyffredinol, nid y gynulleidfa darged. Esboniwch wrth iddynt ymchwilio i'r mater, efallai y byddant yn penderfynu newid eu hamcan – ond ar y cam hwn mae'n bwysig gosod nod i weithio tuag ato. Casglwch y taflenni gwaith Ar drywydd y targed i'w defnyddio yn Sesiynau 3 a 4. Bydd y disgyblion yn llenwi cefn y daflen *Rolau a chyfrifoldebau* yn ystod y sesiwn nesaf. | *Tabl pwyso a mesur*<br>(taflen waith 2);<br>tri nodyn gludiog ar gyfer pob grŵp<br><br>*Ar drywydd y targed*<br>(taflen waith 3)<br><br>Sleid PowerPoint 9 |
| 55-60 munud | **Cyfarfod llawn y grŵp**<br>Ewch yn ôl at y tair sgìl allweddol a nodwyd yn y cyflwyniad: cydweithredu/gwaith tîm, cyfathrebu a meddwl yn feirniadol. Pa mor dda a wnaethant? | Sleid PowerPoint 10 |

# SESIWN 2 **TAFLEN ADNODDAU 1**
# LLUNIAU GWELD-RHEDEG-GWNEUD


**1**



**2**



**3**



# SESIWN 2 **TAFLEN ADNODDAU 2**

# SYNIADAU AR GYFER CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Dyma rai o'r bobl sydd mewn sefyllfaoedd awdurdodol ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
A all unrhyw un ohonynt eich helpu i ddatrys y mater a ddewiswyd gennych?

Aelodau o'r gymuned (ysgol/lleol/cenedlaethol)
Cyngor yr ysgol
Athrawon, athrawon hŷn a llywodraethwyr
Grwpiau cymunedol lleol
Y Cyngor lleol
Yr heddlu
Y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol eraill
Cyrff anllywodraethol ac elusennau
Y cyfryngau

Sut gallech chi eu perswadio neu weithio gyda hwy i achosi newid?
Dewiswch un neu'n fwy o'r camau gweithredu isod neu meddyliwch am un eich hun.

| **Codi ymwybyddiaeth:**<br>**newid agweddau** | **Lobïo a pherswadio:**<br>**newid polisïau** |
|---|---|
| Gallech redeg gweithdy ar gyfer disgyblion mewn ysgol gynradd leol neu eich ysgol chi | Casglwch dystiolaeth, e.e. ymchwil, cyfweliadau, fideos a chyflwyno eich canfyddiadau i'r bobl sy'n gyfrifol am y mater hwn |
| Ysgrifennwch erthygl ar gyfer cylchgrawn neu bapur newyddion lleol | Ysgrifennwch lythyr i'r bobl sy'n gyfrifol am y mater hwn, yn eu perswadio i'ch helpu chi |
| Gallech sefydlu gwefan a blog neu ddechrau trafodaeth ar wefan sy'n bodoli eisoes | Trefnwch ddeiseb i ddangos cefnogaeth ar gyfer eich nodau |
| Trefnwch arddangosfa/cystadleuaeth gelf/ digwyddiad / dangosiad ffilm | Gwahoddwch eich AS lleol (neu rywun arall sydd mewn sefyllfa awdurdodol) i'r ysgol i gael sesiwn holi ac ateb ar y mater |
| **Gweithio gydag eraill:**<br>**cefnogi elusennau a chyrff anllywodraethol** | |
| Trefnwch ddigwyddiad, ee diwrnod heb wisg ysgol, arwerthiant teisennau i godi arian ar gyfer elusen neu NGO | Cysylltwch ag elusen neu NGO sy'n gweithio ar y mater hwn i weld pa gamau gweithredu y maent yn eu hargymell |
| Gwahoddwch siaradwr o elusen o'ch dewis chi | |

# SESIWN 2 **TAFLEN WAITH 1**

# BETH, PAM, PWY, SUT?

**BETH yw eich mater? Beth sy'n bod a beth sydd angen ei newid? Pa hawliau dynol sydd ynghlwm? A wrthodir unrhyw hawliau? A gaiff unrhyw werthoedd craidd eu peryglu?**

↓

**PAM fod hyn yn digwydd?**

↓

**PWY all helpu i ddatrys y mater hwn?**

↓ ↓ ↓

**SUT gallech chi eu perswadio hwy neu weithio gyda hwy i achosi newid? Pa gamau gweithredu y gallech chi eu cymryd?**

# SESIWN 2 **TAFLEN WAITH 2**

# TABL PWYSO A MESUR


**Ar gyfer pob cam gweithredu:**

- ystyriwch pa mor rhwydd y mae i gyflawni'r cam gweithredu a ddewiswyd gennych (anodd, canolig, rhwydd)
- ystyriwch faint o effaith y caiff eich cam gweithredu (mawr, canolig, bach)
- rhowch eich papur nodyn gludiog ar y sgwâr perthnasol ar y tabl.
  Ar ôl i chi wneud hyn ar gyfer eich holl gamau gweithredu, dewiswch gam gweithredu sy'n realistig ac yn effeithiol.

| | | **Pa mor rhwydd yw hi i gyflawni'r cam gweithredu hwn? Ystyriwch yr amser, adnoddau, sgiliau a'r cyfleoedd sydd gennych** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **ANODD** | **CANOLIG** | **RHWYDD** |
| **Faint o effaith a fydd gan y cam gweithredu hwn? Ystyriwch y math a nifer y bobl y gallwch ddylanwadu arnynt** | **EFFAITH FAWR** | | | |
| | **EFFAITH GANOLIG** | | | |
| | **EFFAITH FACH** | | | |

# SESIWN 2 **TAFLEN WAITH 3**

# AR DRYWYDD Y TARGED



# SESIWN 2 **PARHAD I DAFLEN WAITH 3 AR DRYWYDD Y TARGED**

**Rolau a chyfrifoldebau**

Defnyddiwch y tabl hwn i gofnodi'r tasgau allweddol y mae angen i chi eu gwneud. Rhowch dic yn y golofn olaf ar ôl i chi gwblhau pob tasg.

| Rôl/tasg | Pwy sy'n gyfrifol? | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |